

Mae wedi bod yn hyfryd croesawu plant yn ôl i'r ysgol a gweld llawer o wynebau'n gwenu wrth iddynt gychwyn yn Nosbarth Llywelyn. Gobeithio y bydd y llythyr hwn yn rhoi mwy o wybodaeth i chi am y tymor, ond os oes gennych unrhyw gwestiynau, gofynnwch wyneb yn wyneb neu drwy Seesaw.



**Seesaw**– Yng nghyfnod Sylfaen rydym yn defnyddio app Seesaw er mwyn cofnodi a chadw lluniau. Bydd modd i chi fel rhieni cael mynediad i Seesaw personol eich plentyn, a chadw cysylltiad gyda'r hyn rydym yn gwneud yma yn yr Ysgol. Bydd unrhyw waith cartref yn ychwanegol i ddarllen bob penwythnos hefyd yn cael ei osod ar yr app. Os oes gennych unrhyw broblemau yn ei ddefnyddio, rhoiwch wybod i mi a byddaf yn hapus i helpu.



**Llyfrau Darllen**– Bydd cofnod darllen yn cael ei yrru adref ar brynhawn Dydd Gwener fel gwaith cartref. Os yn bosib ei ddychwelwyd yn ôl ar fore Dydd Llun os gwelwch yn dda, gan ein bod yn darllen yn ddyddiol yn yr Ysgol.



**Byrbryd**– Yn ystod y bore cyn amser chwarae bydd plant Dosbarth Llywelyn yn cael byrbryd. Bydd amrywiaeth o ffrwythau gan siop leol yn cael ei gynnig i'r plant, yn ogystal â llaeth a dŵr. Bydd y plant hefyd yn derbyn byrbryd iachus e.e ffrwythau, llyisiau, cracerau a chaws ac ati yn y prynhawn. Gofynnwn yn garedig i chi am gyfraniad o £1 yr wythnos, gan ei dalu ar 'Parent Pay'.



**Boteli dŵr**– Bydd pob plentyn yn derbyn potel dŵr Ysgol Pentrecelyn i'w gadw yn y dosbarth. Bydd modd iddynt yfed dŵr yn annibynnol yn ystod y dydd. Bydd unrhyw fotel o adref yn cael ei gadw yn y bag ar gyfer amseroedd rhydd.



**Themau**– Ein themâu'r tymor hwn ydi *Fi 'di Fi*. Byddwn yn ffocysu ar dyfu fyny a sut mae pawb yn wahanol. Yn ogystal byddwn yn dysgu arferion Ysgol ac yn annog y plant i ddod yn fwy annibynnol yn eu dysgu.

**Dosbarth Dojo** – Byddwn yn gwobrwyo bob plentyn yn defnyddio system Dojo. Ar ddiwedd bob wythnos yn ystod gwasanaeth Ysgol, bydd un plentyn o bob dosbarth yn cael ei gwobrwyo fel penCampwr Dojo yr wythnos.



**Ymarfer Corff**– Bydd sesiwn ymarfer corff yn cael ei gynnal prynhawn Dydd Mercher. A fydd hi'n bosib i bob plentyn ddod a dillad gyda hwy i'r Ysgol i gadw yn eu droriau personol. Bydd angen siorts, crys-T ac esgidiau ymarfer corff addas.



**Gwener Gwych**– Rydym fel Ysgol yn credu bod cynnig profiadau amrywiol i blant yn bwysig iawn. Felly pob prynhawn Dydd Gwener, byddwn yn cynnig lluo o weithgareddau cyffroes ar eu cyfer. Gofynnwn yn garedig i'r disgyblion sicrhau bod esgidiau addas fel welingtons yn cael ei gadael yma yn yr Ysgol, fel ein bod yn medru gwneud y gorau o'r Ysgol goedwig naturiol a'r gymuned.

Rydym yn defnyddio twitter ac facebook i rannu newyddion gyda rhieni– **Ysgol Pentrecelyn**.



Mae gwefan yr ysgol hefyd yn cynnwys llawer o wybodaeth Ysgol, a dyma lle gallwch chi lawrlwytho app yr ysgol er mwyn cael gwybod am newyddion ysgol gyfan.

